*This document is available in English*

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Pwyllgor Archwilio** |
| Rhif adroddiad | **AC/2017/09/08** |
| Dyddiad | **11 Medi 2017** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch - Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Sandra Forrest** |
| Pwnc | **Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'n un o ofynion Cod Materion Ariannol CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf fod y Dangosyddion Darbodus yn cael eu monitro'n rheolaidd, a bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu cymeradwyo. Felly hefyd, dan God Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, mae angen i unrhyw newidiadau i barťïon i gontract yr Awdurdod gael eu hadrodd i'r Aelodau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cafodd y Dangosyddion Darbodus a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2017-2018 eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub ar 20 Mawrth 2017. Ers iddynt gael eu cymeradwyo, mae'r Dangosyddion Darbodus a amcangyfrifwyd ar gyfer 2017-2018 ymlaen wedi newid.

**ARGYMHELLIAD**

3 Gofynnir i Aelodau argymell fod yr Awdurdod Tân ac Achub yn cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus diwygiedig a nodir yn Atodiad A.

**CEFNDIR**

4 Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cael y dasg o sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar y strategaeth rheoli'r trysorlys a'r polisïau, a'i fod yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub ar sail ei ganfyddiadau.

**GWYBODAETH**

**Dangosyddion Darbodus 2017-2018**

5 Mae'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2017-2018 wedi newid oherwydd bod y gwariant mewn gwirionedd ar y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2016-2017 yn llai na'r alldro amcanol. Isod, ceir esboniad o'r hyn y mae pob Dangosydd Darbodus yn ei olygu:

- mae'r Gofyniad Cyllid Cyfalaf yn fesur o'r ddyled tymor hir sydd ei hangen i gefnogi rhaglen gyfalaf yr Awdurdod

- mae'r Ffin Weithredol yn fesur o uchafswm posib y ddyled allanol, gan ragweld llifiadau arian yn mynd i fyny ac i lawr
- y Terfyn Awdurdodedig yw amcangyfrif o'r uchafswm y gallai'r Awdurdod ei fenthyca yn seiliedig ar asesiad o ofynion gweithredol a risgiau allanol.

6 Mae'r tri dangosydd allweddol hyn wedi newid ar gyfer 2017-2018. Mae gwariant cyfalaf wedi cynyddu'n uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol, a hynny oherwydd bod cynlluniau na chwblhawyd yn llwyr yn 2016-2017 yn mynd drosodd i 2017-2018. Mae Atodiad A yn rhestru'r dangosyddion a adroddwyd ym mis Mawrth, ynghyd â'r dangosyddion diwygiedig.

**Benthyciadau Newydd**

7 Ni chymerwyd benthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus eleni, a phan fo benthyciadau EIP a Blwydd-dal yn aeddfedu mae'r rhain wedi cael eu disodli gan fenthyciadau tymor byr. Erbyn hyn, mae'r Awdurdod wedi cael £19,000,000 mewn benthyciadau tymor byr gan Awdurdodau Lleol. Bu raid cynyddu swm y benthyciadau tymor byr ar gyfer llif arian. Ond o hyn ymlaen, bydd hyn yn cael ei ostwng gan fod y Grant Atodol Pensiynau wedi cael ei dderbyn erbyn hyn felly ni fydd unrhyw fenthyciadau sy'n aeddfedu yn cael eu disodli hyd nes bydd yr arian dros ben wedi cael ei ddefnyddio. Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo 55% o derfyn uchaf i'r portffolio benthyciadau ar gyfer swm y benthyciadau sy'n aeddfedu cyn pen 12 mis. Y sefyllfa bresennol yw bod 53.8% o'r benthyciadau yn aeddfedu cyn pen 12 mis. Mae benthyciadau tymor byr yn cael eu hadnewyddu ar hyn o bryd pan fyddant yn aeddfedu gydag Awdurdodau Lleol, gan ddibynnu ar y cyfraddau llog sydd ar gael ar y pryd. Ar hyn o bryd, mae digon o hylifedd yn y farchnad i adnewyddu neu ddisodli benthyciadau sy'n aeddfedu wrth i Awdurdodau Lleol edrych y tu allan i'r sector bancio i osod arian tymor byr.

**Partïon i Gontract a Buddsoddiadau**

8 Roedd y strategaeth fuddsoddi ar gyfer 2017/18, a gafodd ei chymeradwyo gan yr Aelodau ym mis Mawrth, yn cynnwys cymeradwyo'r meini prawf canlynol ar gyfer partïon i gontract

(1) Y Swyddfa Rheoli Dyledion yn y Trysorlys – terfyn £5m

(2) Awdurdodau Lleol (ac eithrio y gyfradd wedi ei chapio) – terfyn £2m

(3) Pob banc Prydeinig a Gwyddelig a'u his-gwmnïau sydd â chyfraddiad da (Fitch neu debyg). Ar hyn o bryd, diffinnir hyn fel:

| | |
|---|---|
| Tymor byr | F1 |
| Tymor hir | A |
| Cyfradd Dichonoldeb | bbb |

Terfyn - £5m

Defnyddir banciau sydd â'u cyfraddiad yn disgyn yn is na'r rhai yn y tabl uchod os bydd adnau cyfanwerthol yn dod dan warant y llywodraeth, a'r adnau'n disgyn o fewn telerau'r gwarant.

(4) Mae gan bob Cymdeithas Adeiladu sydd â chyfraddiad (fel gyda'r sector bancio) derfyn benthyca sy'n £2m.

(5) Mae gan Gymdeithasau Adeiladau sydd heb gyfraddiad, ond sydd ag asedau sy'n £1 biliwn neu ragor, derfyn sy'n £2m gyda therfyn amser o 9 mis.

9 Y prif egwyddor sy'n llywodraethu meini prawf buddsoddi'r Awdurdod yw sicrwydd ei fuddsoddiadau. Mae'r ansicrwydd ynghylch teilyngdod credyd ei bartïon i gontract wedi lleihau ac mae ymgynghorwyr ein trysorlys nawr yn argymell y dylai'r terfyn amser ar gyfer buddsoddiadau fod yn uchafswm o 6 mis. Mae'r arian dros ben sydd i'w fuddsoddi yn uwch na'r hyn y mae'r Awdurdod yn ei ddal fel arfer gan fod y Grant Atodol blynyddol gan Lywodraeth Cymru, at y pensiynau, newydd ddod i law. Mae'r arian dros ben yn cael ei fuddsoddi mewn dau gyfrif galw gyda Barclays a'r Bank of Scotland, sy'n caniatáu mynediad at yr arian ar unwaith. Yn y tymor byr, defnyddir rhywfaint o'r arian parod dros ben i gefnogi'r rhaglen gyfalaf felly pan fydd benthyciadau'n aeddfedu ni threfnir rhai eraill yn eu lle ar unwaith. Dyma'r buddsoddiadau a ddelid ar 29 Awst.

| Prifswm £ | Cyfradd % | Dyddiad y Benthyciad | Cyfnod | Darparwr y Benthyciad |
|---|---|---|---|---|
| 5,000,000 | 0.40 | Ddim yn berthnasol | Galw | Bank of Scotland |
| 760,000 | 0.25 | Ddim yn berthnasol | Galw | Barclays |

**Rheoli'r Trysorlys a MiFID II**

10 Bydd y ffordd y mae awdurdodau lleol yn gallu cael gafael ar wasanaethau ariannol yn newid yn Ionawr 2018 o ganlyniad i'r ail Gyfarwyddeb Offerynnau Ariannol. Er mwyn i Awdurdodau Lleol gael mynediad at farchnadoedd ariannol, bydd angen iddynt ddal £10 miliwn mewn buddsoddiadau fel y gallant gael eu categoreiddio'n gleient 'proffesiynol'. Os nad ydynt yn cael statws 'proffesiynol', byddant yn methu â delio drwy'r cwmnïau broceru y maent yn eu defnyddio ar hyn o bryd oherwydd byddant yn cael eu categoreiddio fel rhai 'manwerthu'. Nid oes gan yr un o'r prif gwmnïau broceru a chynghori awdurdod i wasanaethu cleientiaid manwerthu, gan gynnwys Arlingclose ymgynghorwyr ein Trysorlys.

11 Bydd Aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn cael gwybod yn y cyfarfod am y sefyllfa ddiweddaraf.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Sicrhau bod asedau i gefnogi gwasanaethau rheng flaen yn cael eu prynu mewn modd doeth, fforddiadwy a chynaliadwy. Sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn y seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Gosodir y gyllideb bob blwyddyn ar gyfer cyllido cyfalaf, a hynny'n unol ag adroddiad y Trysorlys. |
| Cyfreithiol | Mae'r fframwaith rheoleiddiol wedi'i nodi ym mharagraff 13. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Buddsoddi arian dros ben – mae risg y gallai'r sefydliad ariannol lle mae arian y gwasanaeth yn cael eu buddsoddi fethu gan golli rhan o'r prifswm a fuddsoddwyd. Fodd bynnag, un o ddibenion yr adroddiad yw lleihau'r risg hwn. |

**ATODIAD A**

**DANGOSYDDION DARBODUS**

| | | **2017/18<br>£** | **2018/19<br>£** | **2019/20<br>£** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>2,285,000<br>5,467,436 | <br>6,075,000<br>6,075,000 | <br>3,015,000<br>3,015,000 |
| 2 | Gofyniad Cyllid Cyfalaf<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>35,649,000<br>36,132,417 | <br>38,910,000<br>39,266,618 | <br>38,726,000<br>38,954,902 |
| 3 | Terfyn Awdurdodedig<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>37,649,000<br>38,132,417 | <br>40,910,000<br>41,266,618 | <br>40,726,000<br>40,954,902 |
| 4 | Ffin Weithredol<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br>35,649,000<br>36,132,417 | <br>38,910,000<br>39,266,618 | <br>38,726,000<br>38,954,902 |
| 5 | Cymhareb y Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br><br>10.23%<br>9.25% | <br><br>10.20%<br>10.21% | <br><br>11.33%<br>11.32% |
| 6 | Ardrawiad Cynyddrannol y Penderfyniadau Buddsoddi Cyfalaf ar y Cyfraniadau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol<br>Dangosydd Gwreiddiol<br>Dangosydd Newydd | <br><br><br><br>29,000<br>68,000 | <br><br><br><br>634,000<br>716,000 | <br><br><br><br>1,116,000<br>1,198,000 |